

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

2 Mawrth 2022

Annwyl Eluned


Cwestiynau dilynol ar gynllun y gaeaf yn sgil y sesiwn graffu ar 10 Chwefror 2022

Diolch am ddod i'n cyfarfod ddydd Iau 10 Chwefror ac am ateb ein cwestiynau.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn cwestiynau dilynol ar y materion sydd wedi'u hamlinellu yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 25 Mawrth 2022.

Yn gywir,



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Cwestiynau dilynol ar gynllun y gaeaf yn sgil y sesiwn graffu ar 10 Chwefror 2022

Yn dilyn y sesiwn graffu ar 10 Chwefror 2022 ar effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth, a chynllun y gaeaf Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2021 i 2022, hoffem gael rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb erbyn 25 Mawrth 2022.

Y rhaglen frechu

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd pa gynlluniau oedd ar y gweill i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhaglen frechu yn y dyfodol, yn enwedig o ran lleihau'r effaith ar wasanaethau drwy adleoli staff. Dywedoch y bu'n rhaid ymateb yn adweithiol, yn enwedig wrth symud yn gyflym i weinyddu rhaglen y brechlyn atgyfnerthu, a bod rhywfaint o ansicrwydd yn dal i fod ynghylch brechu plant dan 12 oed ac effaith gostyngiad yn effeithiolrwydd y brechlyn. Ers y sesiwn dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn ehangu'r rhaglen frechu i gynnwys plant rhwng 5 ac 11 oed nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhan o grŵp â risg clinigol.

1. Rhowch wybod i ni pa effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar y rhaglen frechu a sut y bydd yn cael ei ariannu. Hefyd, rhowch wybod i ni pa gynlluniau wrth gefn sydd yn eu lle, os o gwbl, pe bai angen cyflwyno rhaglen frechu yn gyflym eto.

Adolygiad o gynllun y gaeaf

Roedd eich papur yn nodi y bydd adolygiad a gwerthusiad ehangach o drefniadau'r gaeaf yn cael eu cynnal, a bydd yn ceisio nodi a dysgu o feysydd o arfer nodedig, yn ogystal â'r heriau y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu hwynebu wrth roi cynlluniau ar waith. Dywedodd Judith Paget wrthym nad oedd manylion yr adolygiad hwn wedi'u cadarnhau eto ond ei bod yn disgwyl y byddai'n cael ei gynnal tua mis Ebrill neu fis Mai.

2. A ydych chi bellach mewn sefyllfa i gadarnhau sut y bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal, pwy fydd yn cymryd rhan ynddo a phryd y caiff ei gynnal?

Effaith cyllid tymor byr ar gyfer pwysau'r gaeaf

Yn ein sesiwn, gwnaethom fynegi pryderon ar ran rhanddeiliaid ynghylch effaith cyllid tymor byr ar gyfer pwysau'r gaeaf, yn enwedig ar y gallu i recriwtio a hyfforddi staff. Hefyd, gwnaethom godi'r posibilrwydd o beidio â chael cynllun ar gyfer y gaeaf, ond yn hytrach cael cynllun blynyddol lle bydd mwy o lawdriniaethau dewisol yn cael eu cynnal ystod y gwanwyn a'r haf, gan adael cyfnod yr hydref a'r gaeaf yn fwy rhydd ar gyfer y gwaith o ymateb i bwysau'r gaeaf.

3. Ateboch gan ddweud y dylid ystyried yr awgrym hwn. Byddem yn croesawu rhagor o sylwadau gennych i'r perwyl hwnnw.

4. A allwch chi roi sicrwydd bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd yn cynnwys cynlluniau digonol i ymdrin ag effeithiau tymhorol (gan gynnwys pwysau'r gaeaf, ac effaith bosibl tywydd poeth yn ystod yr haf)?

